



## POLISI ADDYSG RHYW A PHERTHNASOEDD

Mae Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yn rhan o Addysg Personol a Chymdeithasol yn yr ysgol; byddwn yn helpu disgyblion i ddatblygu agweddau cyfrifol ac iach at berthnasoedd personol a deall mwy amdanynt eu hunain, eu teimladau eu hunain a theimladau pobl eraill, datblygiad corfforol ac emosiynol, bywyd teuluol a materion moesegol a chymdeithasol cysylltiedig.

### Pam dysgu am Addysg Rhyw a Pherthnasoedd?

- Mae disgyblion eisoes yn ymwybodol o faterion yn ymwneud â rhyw
- Mae angen gwybodaeth fanwl, cywir a phriodol arnynt
- Mae disgwyl i ddisgyblion fod yn barod i wynebu pwysau'r byd cyfoes, rhai emosiynol, corfforol a chymdeithasol
- Mae beichiogrwydd mewn merched yn eu harddegau yn dod yn fwy cyffredin yn ein cymdeithas
- Trwy addysg gallwn alluogi pobl ifanc i ddatblygu yn oedolion cyfrifol
- Codi ymwybyddiaeth o'u cyrff a phwysigrwydd hunanarchwilio rhannau o'r corff

### Mae Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yn ymdrin â'r agweddau canlynol:

- |                   |                        |  |
|-------------------|------------------------|--|
| • Emosiynau       | • Agweddau             | • Hunan-barch                          |
| • Newid corfforol | • Parch                | • Hunan-hyder                          |
| • Cadw'n ddiogel  | • Cyfrifoldeb          | • Pwysau cyfoedion/y cyfryngau/y teulu |
| • Ymddygiadau     | • Perthnasoedd positif |  |

### Sut y cyflwynir Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yn Y Strade

Cyflwynir Addysg Rhyw a Pherthnasoedd o fewn cyd-destun ehangach y cynllun ABCh i holl ddisgyblion yr ysgol trwy gyfnodau allweddol 3 a 4 ac ym mlynnyddoedd 12 a 13. (Gweler Cynlluniau Gwaith ABCh)

### Nod

Nod y cynllun yw rhoi sylw teilwng i ddatblygiad holl bwysig y disgyblion, er mwyn paratoi i fyw bywydau cyfrifol fel oedolion. Mae'n ffordd o ddatblygu ffordd iach o fyw Ceisiwn baratoi'n disgyblion i gymryd cyfrifoldeb am eu hymddygiad yn eu cydberthnasau personol.

### Amcanion

Diben addysg rhyw a pherthnasoedd yw cynnig gwybodaeth am berthnasoedd cariadus, natur rhywioldeb a phrosesau atgenhedlu dynol, gan alluogi disgyblion i ddysgu ac edrych ar eu perthnasoedd mewn modd cyfrifol ac iach. Cyflwynir y ffeithiau mewn modd gwrthrychol, cytbwys a sensitif, wedi'i osod o fewn fframwaith clir o werthoedd ac ymwybyddiaeth o'r gyfraith ar ymddygiad rhywiol. Ceisiwn annog disgyblion i sylweddoli gwerth bywyd teuluol sefydlog, priodas a chyfrifoldebau bod yn rhiant. Dylid eu hannog i ystyried pwysigrwydd hunan-ymatal, urddas, parch atynt eu hunain ac i eraill, derbyn cyfrifoldeb, sensitifrwydd tuag at anghenion a barn eraill, teyrngarwch a ffyddlondeb.



### Cyfnod Allweddol 3

Mae gofyn i ddisgyblion:

- Ddysgu am arferion glendid personol a derbyn cyfrifoldeb cynyddol dros eu lles corfforol wrth symud tuag at llencyndod
- I fod yn ymwybodol o newidiadau'r corff wrth iddynt dyfu a datblygu a'r newidiadau emosiynol sy'n digwydd yn yr arddegau
- Ddatblygu agweddau cyfrifol tuag at eu hiechyd a'u lles eu hunain
- I fod ag agwedd gyfrifol tuag at ymddygiad rhywiol
- I fod yn ymwybodol am y peryglon mewn rhai mathau o ymddygiad rhywiol
- I wybod am glefydau a drosglwyddir yn rhywiol gan gynnwys HIV/AIDS
- I ddatblygu dealltwriaeth o'r gyfraith a rhyw, fel sy'n briodol i'w hoed

### Cyfnod Allweddol 4

Mae gofyn i ddisgyblion:

- Ddeall agweddau biolegol, atgenhedlu
- I ddeall y gyfraith ynglyn ag oed cysynio
- I ddysgu am gynllunio teulu ac atal-genhedlu
- I drafod materion dadleuol megis HIV/AIDS, erthyly, agweddau rhywiol, beichiogi a.a
- I ddeall am asiantaethau allanol sy'n cynnig cefnogaeth mewn perthnasoedd e.e, Hafan Cymru
- I fod yn ymwybodol o bartneriaethau, priodi, ysgaru ac effaith colli, gwahanu a phrofedigaeth
- I fod yn ymwybodol bod teimlo'n gadarnhaol mewn materion rhywiol yn bwysig mewn perthnasoedd

### Cyflwynir Addysg Rhyw a Pherthnasoedd mewn sawl ffordd gan:-

- Tiwtoriaid dosbarth mewn gwersi ABCh. Cydymffurfir ag argymhellion Fframwaith ABCh Cymru a chyfarwyddyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yng Nghylchlythyr 11/02 – 'Addysg Rhyw a Pherthnasoedd mewn Ysgolion'
- Addysg Cyfoedion – aeloda o'r 6ed dosbarth sydd wedi'u hyfforddi gan arbenigwyr ym maes iechyd rhywiol yn cyflwyno sesiynau i Fl.9. Bydd athro/athrawes yn bresennol bob amser
- Ymweliad gan nyrsys iechyd rhywiol GIG lleol i drafod ac i addysgu am ryw, atal cenhedlu ac afiechydon yn ymwneud â rhyw i Fl.10. Bydd athro/athrawes yn bresennol bob amser
- Ymweliad gan weithiwr Hafan Cymru sy'n addysgu am bwysigrwydd perthnasoedd iach a diogel i bob Cyfnod Allweddol o fewn rhaglen Sbectrwm
- Trafodir agweddau moesol ar ryw a pherthnasoedd mewn gwersi Addysg Grefyddol statudol
- Bydd rhai elfennau yn cael eu dysgu o fewn y cwricwlwm Gwyddoniaeth.

<b>Diweddarwyd:</b>	
<b>Derbyniwyd gan y Corff Llywodraethol:</b>	
<b>Llofnod y Cadeirydd:</b>	